



YSGOL HAFAN Y MÔR
Heywood Lane,
Dinbych y Pysgod/ Tenby,
SA70 8BZ
☎ 01834-843248

admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk

 Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod



ysgolhafanymor.cymru



@hafanymortenby

26/02/2021

Annwyl rieni a gofalwyr

Hyfryd oedd croesawu rhai o'n disgyblion yn ôl i'r ysgol yr wythnos hon. Mae wedi bod yn braf i glywed eu lleisiau ar hyd yr ysgol ac yn rhedeg tu allan ar yr iard gan chwarae, cymdeithasu a chwerthin gyda'i gilydd! Edrychaf ymlaen at groesawu pawb nol pan fydd hi'n ddiogel i wneud hynny.

Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Esta, Josef T, Dylan T, Freddie, Elsi, Noa W, Izzy, Evelyn J(B16) ac Evie-Alice am fod yn sêr yr wythnos hon - 26.02.2021!

SpellBlast & NumberBlast

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol:

SpellBlast

Bl. 2 - Toby
Bl. 3 - Harri
Bl. 4 - Ted
Bl. 5 & 6 - Alanna

J2NumberBlast

Pencampwyr

Ava
Arthur
Libby
Beau

Gwisg ysgol

Gofynnwn i bob plentyn sy'n myncyhu'r ysgol neu'r Hyb dysgu a gofal i wisgo gwisg ysgol yn ddyddiol i'r ysgol.

Dydd Gwyl Dewi - Mawrth 1af

Gofynnwn i bob plentyn wisgo gwisg Gymreig neu grys rygbi ar ddydd Llun, Mawrth 1af. Os nad ydy'ch plentyn yn mynchu'r ysgol neu'r Hyb dysgu a gofal, gallwch ddanfon llun ohonynt trwy ebost at admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk fel ein bod yn medru creu collage o luniau i rannu ar ein gwefannau cymdeithasol o'r dathliadau ysgol ac adref!

Diwrnod y Llyfr - Mawrth 3ydd

Gofynnwn i bob plentyn wisgo fel cymeriad allan o lyfr ar ddydd Iau, Mawrth 3ydd. Ni fydd hawl ddod a llyfr na thegan i'r ysgol dim ond i wisgo fel cymeriad er mwyn lleihau'r risg o groeshalugi. Os nad ydy'ch plentyn yn mynchu'r ysgol neu'r Hyb dysgu a gofal, gallwch ddanfon llun ohonynt trwy ebost at admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk fel ein bod yn medru creu collage o luniau i rannu ar ein gwefannau cymdeithasol o'r dathliadau ysgol ac adref!

Clwb Brecwast a Chlwb Hwyl (clwb ar ol ysgol)

Os oes wir angen defnyddio'r ddarpariaeth, mae'n rhaid i chi gadw lle i'ch plentyn trwy lenwi'r ffurflen electroneg isod. Ni fydd hawl i'ch plentyn fynychu os nad ydych wedi cwblhau'r ffurflen oherwydd cyfyngiadau Covid.

*Ffurflen Clwb Brechwast / Clwb Hwyl

*Nodwch os gwelwch yn dda; mae'r ffurflen ar gyfer disgyblion CA2 yn bennaf sydd angen gofal Hwb dysgu fodd bynnag gall rhieni CS llewni hefyd gan nodi darpariaeth 8yb neu trwy'r dydd tan 5.15yp ar gyfer clwb hwyl.

Darpariaeth Hyb Dysgu a Gofal

Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Genedlaethol, rhaid i bawb aros gartref ac eithrio teithio hanfodol i'r gwaith os nad ydynt yn gallu gweithio gartref, ar gyfer siopa bwyd hanfodol neu anghenion meddygol. Yn dilyn y canllawiau hyn, mae Cyngor Sir Penfro wedi hysbysu ysgolion bod yn rhaid i unrhyw ddysgu a gofal plant a ddarperir yn yr ysgol fod yn ddewis olaf i deuluoedd a bod yn rhaid bod pob llwybr arall o ofal plant wedi'i archwilio ee. neiniau a theidiau, swigod cymorth estynedig, darpariaeth gwarchod plant arferol a ddefnyddir ar benwythnosau. Mae hyn er mwyn ceisio sicrhau diogelwch cynifer o bobl â phosibl. Mae straen newydd y Coronafeirws yn heintus iawn ac yn lledaenu'n gyflym iawn o berson i berson.

Fel pennaeth Ysgol Hafan y Môr, fy nyletswydd i yw sicrhau lles a diogelwch yr holl ddisgyblion a staff erioed. Felly, os ydych wedi dihybyddu'r holl ddarpariaeth gofal plant arall a bod 1 rhiant yn weithwyr hanfodol heb unrhyw ddewis ymarferol arall, gofynnaf yn garedig ichi gwblhau'r ddolen ganlynol <https://forms.gle/QswfzXRCXehwQfeb7> i archebu'r sesiynau a'r amseroedd sydd eu hangen.

Hoffwn hefyd wahodd unrhyw riant sydd yn poeni am ddatblygiad addysgiadol, iechyd meddwl neu les ei blentyn adref, i gysylltu â mi yn yr ysgol gan ein bod yn medru trefnu i'ch plentyn fynychu'r hyb dysgu a gofal. Mae'n bwysig cefnogi pob plentyn ac ni fyddem yn hapus i blentyn i fod adref yn poeni os allwn gynnig lle yn y hyb i helpu oresgyn unrhyw ofidion.

Sesiynau meddwlgarwch a lles i rieni

Hoffwn ddiolch i'r rhieni mynychodd y sesiwn meddwlgarwch a lles nos Fercher diwethaf, 24.2.2021 am 7yh. Deallaf ni fydd pawb yn medru mynychu ar yr adeg ohonno felly mae recordiad ar gael os hoffech wyllo yn amser eich hyn. Plis pediwch rannu'r recordiad ar unrhyw wefannau cymdeithasol na thu fas cymuned ysgol Hafan y Mor. Bydd angen cyfrinair i wyllo'r sesiwn. Ebostiwch admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk er mwyn derbyn y cyfrinair.

https://us02web.zoom.us/rec/share/TC3_pGEj2QjqsB0U8PkmBfc8OicDm2nGZfT5HGLgy3CZWqpbIehKxrTVMpJMUTgN.ojmmBIId5yrgtoY08?startTime=1614193334000

Dyma'r ddolen zoom ar gyfer y sesiwn nesaf ar nos Fercher, 3.3.2021 am 7yh.

Join Zoom Meeting

<https://us02web.zoom.us/j/81816457311>

Yn gywir

Mrs Griffiths
Pennaeth

Wythnos yn cychwyn: 01.03.2021		Week commencing: 01.03.2021	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
<u>Dyddiad</u>	<u>Digwyddiad</u>	<u>Date</u>	<u>Event</u>
01.03.21 <u>Dydd Llan</u>	<u>Dydd Gwyl Dewi</u> Gofynnwn i bob plentyn wisgo gwisg Gymreig neu grys rygbi.	01.03.21 <u>Monday</u>	<u>St David's Day</u> We kindly ask all children to wear either Traditional Welsh costume or a rugby shirt.
04.03.21 <u>Dydd Iau</u>	<u>Diwrnod y llyfr</u> Gofynnwn i bob plentyn wisgo fel cymeriad allan o lyfr. Ni fydd hawl ddod a llyfr na thegan i'r ysgol dim ond i wisgo fel cymeriad er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi.	04.03.21 <u>Thursday</u>	<u>World Book Day</u> We ask all children to dress as a character out of a book. There will be no right to bring a book or toy to the school only to dress as a character in order to reduce the risk of cross-contamination.

Gwybodaeth - Information

Gwybodaeth am ddyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (diwrnodau cau'r ysgol)

Sylwch fod y rhain wedi'u diweddarau a'u bod ar galendr gwefan yr ysgol

<http://ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/>

HMS (ysgol ar gau i blant)	26.03.2021
Gwyliau'r Pasg	29.03 - 09.04.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	12.04.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	28.05.2021
Hanner tymor	31.05 - 04.06.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	19 & 20.07.2021

Newidiadau i'r drefn boreol a chasglu yn y prynhawn

Hoffwn atgoffa'r **holl rieni a gofalwyr** hefyd fod yn rhaid iddynt gadw at y **system un ffordd**, dilyn y saethau gwyn a **pheidio â cherdded ar draws iard chwarae'r iard gefn**. Os yw rhieni/gofalwyr wedi casglu plant iau, cadwch nhw gyda chi wrth i chi aros yn y fan a'r lle i gasglu brawd neu chwaer hŷn. Gofynnaf yn garedig i rieni / gofalwyr gasglu eu plentyn/plant a gadael tir yr ysgol ar unwaith.

Yn dilyn y rheoliadau newydd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro, **gofynnir yn garedig i bob rhiant / gofalwr wisgo gorchudd gwyneb wrth ddod â'u plentyn i'r ysgol a'u casglu**. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch parhaus pawb ac mae'n ceisio lleihau'r broses o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned.

Poteli dwr a byrbrydau iachus

Hoffwn atgoffa rhieni / gofalwyr i sicrhau bod eu plentyn yn dod â photel ddŵr a byrbryd iach i'r ysgol bob dydd. Gwnewch yn siŵr mai dim ond dŵr sydd yn y botel gan fod gan rai plant yn yr ysgol alergedd i wahanol fathau o sgwash a gallai achosi adwaith alergaidd posibl i blentyn arall. A allai rhieni hefyd gofio

bod gennym ychydig o blant ag alergeddau cnau ac felly mae'n bwysig osgoi anfon cnau/cynhyrchion cnau i'r ysgol.

INCLEMENT WEATHER

I would like to remind all parents of the procedures for inclement weather and school closure. Updates relating to school closures or other alerts can be found on the following pages:-

The Council's website at:- www.pembrokeshire.gov.uk/alerts

You can register for alerts by creating your own account by using the following web address: <https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/>

The Council's Twitter and Facebook pages will also be updated with alerts:-

www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil

www.twitter.com/Pembrokeshire

Gwyliau / Absenoldeb


Hoffwn atgoffa pob rhiant am y pwysigrwydd o adrodd absenoldeb eich plentyn. Os yw eich plentyn/plant yn absennol oherwydd salwch, **mae'n rhaid** rhoi gwybod amdano drwy **ddanfon nodyn Absenoldeb yn ParentMail cyn 9yb ar ddiwrnod yr absenoldeb**. Os ydych yn bwriadu cymryd gwyliau neu ofyn am absenoldeb oherwydd rheswm arall heblaw salwch, **rhaid i chi lenwi'r ffurflen electronig (dolen isod) o leiaf 10 diwrnod cyn yr absenoldeb arfaethedig**.

Os nad yw plentyn wedi'i gofnodi fel plentyn sy'n bresennol yn yr ysgol, erbyn 9.25am yna bydd eich plentyn yn cael ei nodi fel N - dim rheswm dros absenoldeb. Mae hyn yn unol â pholisi presenoldeb a gweithdrefnau diogelu'r ysgol. Mae'r Swyddogion Lles Addysg Cyngor Sir Penfro yn dechrau craffu ar gofrestrau 20 munud ar ôl cau'r gofrestr a bydd yn cysylltu â'r ysgol a Thîm Diogelu'r Awdurdod Lleol gan fod eich plenty wedi'i nodi fel, plentyn "coll" ac mae hyn yn cael eu hystyried yn fater diogelu.

Dolen gyswllt i'r ffurflen "Gwyliau / Cais am Absenoldeb":

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k3nxpioDQn1lucxiu98NkxFUREswUDhZQVvk2WkdVS0o3QkZNRkRHRjVJQi4u

Dyddiadau o flaen llaw		Future dates	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
<u>Dyddiad</u>	<u>Digwyddiad</u>	<u>Date</u>	<u>Event</u>

 Dyddiad newydd / New Date